Templed cylchlythyr ymyl y ffordd yr Awdurdod Lleol

Pwnc: Peidiwch â gadael i'ch batri achosi'r tân nesaf 🔥

Cyn-destun: Peidiwch byth â rhoi batris neu nwyddau trydanol yn y bin

Annwyl [enw cyntaf],

Peidiwch byth â rhoi batris neu nwyddau trydanol yn y bin - gan eu bod yn gallu cynnau tanau 🔥

Gall batris a nwyddau trydanol fel fêps gynnau **tanau** pan fyddant wedi'u malu neu eu difrodi mewn bin neu lorïau ailgylchu. Mae mwy a mwy o'r tanau hyn yn digwydd ledled y DU, gan beryglu bywydau go iawn ac yn llygru ein cymunedau.

Ond gallwn helpu i'w stopio gyda'n gilydd.

Y newyddion da?

Mae gennych gasgliad lleol ar gyfer nwyddau trydan bach a batris - sy'n golygu y gallwch ailgylchu'n ddiogel o'ch drws! Mae [insert area] yn un o'r nifer o gymunedau ledled y DU lle gallwch ailgylchu batris a thrydanau yn ddiogel ar wahân i'ch gwastraff cyffredinol a'u hailgylchu gartref.

Yn syml, [rhowch wybodaeth berthnasol a dolen i ddarganfod mwy]

Ar gyfer unrhyw eitemau na allwn eu derbyn[/mewnosod eitemau penodol e.e. fêps, bylbiau golau a / neu nwyddau trydanol mawr], defnyddiwch Recycle Your Electricals' Locator i ddod o hyd i'ch holl fannau gollwng lleol.

Batris a 'batris cudd'

Os yw eitem yn goleuo, yn symud, yn canu grwndi, neu'n pwffian ac nad yw'n cael ei blygio i mewn, mae'n cael ei bweru gan batri - ac ni ddylid byth ei daflu yn y bin.

Mae eitemau bach bob dydd fel fêps, clustffonau a theganau plant yn aml yn cynnwys 'batris cudd' y tu mewn. Maent hefyd yn cynnwys deunyddiau

gwerthfawr fel lithiwm, aur, dur a chopr, y gellir eu hadfer a'u hailgylchu i unrhyw beth o feysydd chwarae plant i offer meddygol sy'n achub bywydau.

Cyn ailgylchu eich nwyddau trydanol yn ddiogel:

[rhowch wybodaeth benodol am gasgliad ymyl y palmant]

Peidiwch ag anghofio - os na allwch ei drwsio, ei roi neu ei werthu, ailgylchwch eich hen nwyddau trydanol bob amser! **Gellir ailgylchu unrhyw beth sydd â phlwg, batri neu gebl a** 'i droi'n rhywbeth newydd.

Diolch am ein helpu i gadw ein cymuned yn ddiogel.